

Datganiad Cristnogol yn cefnogi dileu amddiffyniad “cosb resymol”

Rydym ni o'r farn bod deddfwriaeth i ddileu amddiffyniad “cosb resymol” yn hanfodol oherwydd bod hynny'n adlewyrchu'r gymdeithas drugarog, ddi-drais rydym am ei sicrhau i bob plentyn.

Mae cosbi plant yn gorfforol wedi bod yn rhan gyffredin o'n diwylliant yn rhy hir. Ond mae disgyblu trwy ddefnyddio cosb gorfforol yn anghydnaws â gwerthoedd crefyddol craidd parch at urddas dynol plant, cyfiawnder a dulliau di-drais. Ni ellir cyfiawnhau'r arfer poenus, sarhaus hwn o dan unrhyw amgylchiadau.

Mae rhai grwpiau Cristnogol yn defnyddio eu crefydd i gyfiawnhau cosb gorfforol, ac efallai y byddant yn dadlau bod cyfiawnhad i hynny mewn testunau ysgrythurol megis Diarhebon 13:24: *Mae'r sawl sy'n atal y wialen yn casáu ei blentyn; mae'r un sy'n ei garu yn ei ddisgyblu o'r dechrau cyntaf.* Ond amhriodol yw tynnu testunau o'r fath allan o gyd-destun eu diwylliant hynafol er mwyn cyfiawnhau trais tuag at blant. Fel Cristnogion, rydym yn darllen y Beibl trwy lens dysgeidiaeth ac esiempl Iesu. Roedd Iesu yn trin plant â pharch ac yn eu rhoi yn y canol, fel y gwelwn ym Marc 9:37: *Mae pwy bynnag sy'n rhoi croeso i blentyn bach fel yma am eu bod yn perthyn i mi, yn rhoi croeso i mi.*

Rydym am bwysleisio bod rhaid i ddiwygio'r gyfraith fynd law yn llaw â chefnogaeth i rieni, addysg gyhoeddus eang a hyrwyddo disgyblaeth gadarnhaol, ddi-drais. Ond ni ddylai plant orfod aros i'r farn gyhoeddus newid, nac i deuluoedd dderbyn gwell gwasanaethau. Tra bod y gyfraith yn cyfleu'r neges bod modd amddiffyn y weithred o daro plant, bydd plant yn parhau i gael eu taro. Ac mewn teuluoedd “lle ceir risg”, gall plant wynebu ymosodiadau difrifol yn enw disgyblaeth.

I lawer o bobl mae'r gair “disgyblaeth” yn gyfystyr â chosb gorfforol. Ond ystyr gwreiddyn y gair yw “dysgu” ac ystyr disgyblaeth gadarnhaol, ddi-drais yw dysgu plant trwy esiempl oedolion. Mae wedi ei seilio ar empathi, cydymdeimlad a dealltwriaeth o ddatblygiad plant, ac mae'n barchus ac yn garedig. Mae'n golygu cynnal a thywys plant, a dyna'r ffordd orau o hybu hunan-ddisgyblaeth.

Mae pobl yn aml yn mynegi pryder y bydd gwahardd smacio yn golygu bod llawer o rieni da, cariadus yn wynebu erlyniad am smacio “ysgafn”. Ond fel yn y gwledydd eraill niferus yn Ewrop lle mae plant yn mwynhau amddiffyniad cyfartal o dan y gyfraith, ni fydd rhieni'n cael eu cyhuddo a'u herlyn oni bai bod hynny'n angenrheidiol i amddiffyn y plentyn rhag niwed sylweddol.

Mae digon o dystiolaeth wedi ei chofnodi ynghylch y niwed a achosir gan gosb gorfforol yn y tymor hir a byr, ac rydym yn ymwybodol bod cyfreithlondeb cosb o'r fath yn parhau i danseilio gwaith addysgwyr rhieni ac amddiffyn plant.

Mae hwn yn gyfle i ni anrhydeddu hawl dynol plant i amddiffyniad cyfartal a chymryd cam pwysig tuag at gymdeithas gyfiawn, heddychlon.

Llofnodwyd

Y Parchedical Barry Morgan, *Archesgob Cymru*

Y Tra Pharchedig Geoffrey Marshall, *Deon Aberhonddu*

Y Gwir Barchedig (John) Wyn Evans, Yr Esgob Dewi Sant, Eglwys yng Nghymru

Y Parchedig Peter C Noble, *Caplan Arweiniol Partneriaeth Eciwmenaid Leol Bae Caerdydd, Goleulong 2000 Lightship, Bae Caerdydd*

Y Parchedig Simon Walkling, *Llywydd Etholedig Synod i Eglwys Ddiwygiedig Unedig Synod Cenedlaethol Cymru*

Y Parchedig Dr Michael N. Jagessar, Ysgrifynydd - Cyfiawnder Hiliol a Gweinidogaeth Amlddiwylliannol (adran genhadaeth) Yr *Eglwys Ddiwygiedig Unedig*

The Rev Dyfrig Lloyd, Vicar, Eglwys Dewi Sant, Cardiff

Pam Evans, Founder of the Peace Mala Project for World Peace

The Rt Rev Monsignor Peter Brignall, Bishop of Wrexham

The Revd Pastor John Surrige, President Seventh Day Adventist Church in Wales